OFFERYNNAU STATUDOL
CYMRU

# 2017 Rhif 269 (Cy. 71)

# TRAFFIG FFYRDD, CYMRU

# Gorchymyn Cefnffordd yr A483 (Ysgol yr Eglwys yng Nghymru Llanelwedd, Llanelwedd, Powys) (Terfynau Cyflymder 30mya Dros Dro ac 20mya Rhan-amser) 2017

| | |
|---|---|
| *Gwnaed* | *20 Chwefror 2017* |
| *Yn dod i rym* | *23 Chwefror 2017* |

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod traffig ar gyfer y darn perthnasol o Gefnffordd Abertawe – Manceinion (yr A483) ("y gefnffordd"), wedi eu bodloni y dylid cyfyngu ar draffig ar ddarn penodedig o'r gefnffordd oherwydd y tebygolrwydd o berygl i'r cyhoedd.

Mae Gweinidogion Cymru, felly, drwy arfer y pwerau a roddwyd iddynt gan adran 14(1) a (4) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984(1), yn gwneud y Gorchymyn hwn.

**Enwi, Dehongli a Chychwyn**

**1.** Daw'r Gorchymyn hwn i rym ar 23 Chwefror 2017 a'i enw yw Gorchymyn Cefnffordd yr A483 (Ysgol yr Eglwys yng Nghymru Llanelwedd, Llanelwedd, Powys) (Terfynau Cyflymder 30mya Dros Dro ac 20mya Rhan-amser) 2017.

(**1**) 1984 p.27; amnewidiwyd adran 14 gan adran 1(1) o Ddeddf Traffig Ffyrdd (Cyfyngiadau Dros Dro) 1991 (p.26) ac Atodlen 1 iddi. Yn rhinwedd erthygl 2 o O.S. 1999/672 ac Atodlen 1 iddo, a pharagraff 30 o Atodlen 11 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, mae'r pwerau hyn yn arferadwy bellach gan Weinidogion Cymru o ran Cymru.

**2.** —(1) Yn y Gorchymyn hwn:

ystyr “cerbyd esempt” (“*exempted vehicle*”) yw:

(a) unrhyw gerbyd sy’n cael ei ddefnyddio gan y gwasanaethau brys; a

(b) unrhyw gerbyd sy’n cael ei ddefnyddio at ddibenion y llynges, y fyddin neu’r llu awyr ac sy’n cael ei yrru gan berson sydd am y tro yn ddarostyngedig i orchmynion yr aelod o luoedd arfog y Goron, sy’n aelod o’r lluoedd arbennig—

(i) ac sydd wedi ei hyfforddi i yrru ar gyflymderau uchel ac sy’n gweithredu wrth ymateb, neu wrth ymarfer ymateb, i argyfwng diogelwch gwladol; neu

(ii) at ddiben hyfforddi person i yrru cerbydau ar gyflymderau uchel;

ystyr “y darnau o'r gefnffordd” *(“the lengths of the trunk road”)* yw'r darnau o'r gefnffordd yn Llanelwedd yn Sir Powys a bennir yn yr Atodlenni i'r Gorchymyn hwn.

ystyr “lluoedd arbennig” (“*special forces*”) yw’r unedau hynny o’r lluoedd cartref y mae Cyfarwyddwr y Lluoedd Arbennig yn gyfrifol am gynnal eu galluoedd neu sydd am y tro yn ddarostyngedig i reolaeth weithredol y Cyfarwyddwr hwnnw.

(2) Mae unrhyw gyfeiriad yn y Gorchymyn hwn at erthygl neu Atodlen â rhif yn gyfeiriad at yr erthygl neu’r Atodlen sy’n dwyn y rhif hwnnw yn y Gorchymyn hwn.

### Cyfyngiadau

**3.** Ni chaiff neb yrru unrhyw gerbyd, na pheri na chaniatáu i unrhyw gerbyd fynd, yn gyflymach nag 20 milltir yr awr ar y darn o’r gefnffordd a bennir yn Atodlen 1.

**4.** Ni chaiff neb yrru unrhyw gerbyd, na pheri na chaniatáu i unrhyw gerbyd fynd, yn gyflymach na 30 milltir yr awr ar y darn o’r gefnffordd a bennir yn Atodlen 2.

### Atal Dros Dro

**5.** Mae darpariaethau Gorchymyn Cefnffordd yr A483 (Llanelwedd, Powys) (Dileu cyfyngiad a Therfyn Cyflymder 40 MYA) 2005(**2**), i'r graddau y maent yn gymwys i'r darnau o'r gefnffordd a bennir yn Atodlenni 1 a 2, wedi eu hatal dros dro drwy hyn ar adegau pan fo'r cyfyngiadau a bennir yn erthyglau 3 a 4 yn weithredol.

(**2**) O.S. 2005/1637 (Cy.126)

**Cymhwyso**

**6.** Ni fydd darpariaethau erthygl 3 yn gymwys ond ar yr adegau hynny ac i'r graddau hynny y bydd arwyddion traffig wedi'u hactifadu yn dangos bod y cyfyngiad y maent yn cyfeirio ato yn weithredol.

**7.** Ni fydd darpariaethau erthygl 4 yn gymwys ond ar yr adegau hynny ac i'r graddau hynny y bydd arwyddion traffig yn dangos bod y cyfyngiad y maent yn cyfeirio ato yn weithredol.

**Cyfnod Para'r Gorchymyn hwn**

**8.** Bydd y Gorchymyn hwn yn para am 18 mis ar y mwyaf.

Llofnodwyd o dan awdurdod Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi a'r Seilwaith, un o Weinidogion Cymru

Dyddiedig 20 Chwefror 2017

*Nina Ley*
Pennaeth yr Uned Fusnes, Rheoli'r Rhwydwaith
Llywodraeth Cymru

## YR ATODLENNI

### ATODLEN 1
### Terfyn Cyflymder 20 mya Dros Dro Rhan-amser

Y darn o'r gefnffordd sy'n ymestyn tua'r gogledd-ddwyrain o bwynt 273 o fetrau i'r gogledd-ddwyrain o ganol Cylchfan Llanelwedd at bwynt 41 o fetrau i'r de-orllewin o'r gyffordd â'r A481.

### ATODLEN 2
### Terfyn Cyflymder 30 mya Dros Dro

Y darn o'r gefnffordd sy'n ymestyn tua'r gogledd-ddwyrain o bwynt 75 o fetrau i'r gogledd-ddwyrain o ganol Cylchfan Llanelwedd am bellter o 305 o fetrau.